Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

Dyddiad: 12/01/2016
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Jocelyn Davies AC | Cadeirydd |
| Eleri Butler | Prif Weithredwr Cymorth i Fenywod Cymru |
| Karan Sanghera | Cymorth i Fenywod Cymru |
| Sion Sanders | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Anne Hubbard | Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru |
| Paul Lewis | Comisiynydd Plant Cymru |
| Richard Lewis | Llamau |
| Isobelle Morgan | Hafan Cymru |
| Sarah Thomas | NFWI Cymru |
| Elle McNeil | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Jim Stewart | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Jackie Jones | Cynulliad Menywod Cymru / BAWSO |
| Berni Bowen-Thomson | Cymru Ddiogelach |
| Gwilym Roberts | Relate Cymru |
| Angharad Lewis | Ymchwilydd Jocelyn Davies AC |

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | |
| Bethan Jenkins AC | |
| David Melding AC | |
| Johanna Robinson | Survivors Trust Cymru |
| Steve Bartley | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Phillip Walker | The Survivors Trust |
| Barbara Natasegara | Cymru Ddiogelach |
| Yr Athro Emma Renold | Prifysgol Caerdydd |
| Liz Newton | Swyddfa Peter Black AC |

---

**1. Cyflwyniad**

Croeso gan Jocelyn Davies AC (Cadeirydd).

**2. Dyfodol y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant**

Bydd Jocelyn Davies AC yn sefyll i lawr fel AC yn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016 ac ni fydd yn gallu parhau fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol. Mae Bethan Jenkins AC a Mark

Isherwood AC wedi cael cais i gymryd drosodd fel cyd-gadeiryddion y Grŵp. Bydd Cymorth i Fenywod Cymru, fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol, yn gweithio gyda hwy a'u staff cymorth i ailsefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol pan fydd y Cynulliad yn ailymgynnull.

Cytunwyd mai un o brif gyfrifoldebau'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol fydd dylanwadu ar yr ymgynghoriad ynghylch cyhoeddi canllawiau statudol yn dilyn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 drwy dynnu sylw at arferion da a gweithio i gynorthwyo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu ynghylch darpariaeth gwasanaethau arbenigol.

**3. Cymorth i Fenywod Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a materion sy'n wynebu gwasanaethau**

Amlinellodd Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Fenywod Cymru, flaenoriaethau ei sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith
- Y broses ddrafftio ac ymgynghori barhaus ar gyfer canllawiau statudol 'Gofyn a Gweithredu' ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a darparu hyfforddiant
- Effaith y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar hawliau, cefnogi a diogelu dioddefwyr troseddau, yr oedd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau ei rhoi ar waith erbyn Tachwedd 2015
- Gwella ac egluro strategaethau atal sylfaenol

Tynnodd sylw at y materion sy'n wynebu darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru:

- Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn parhau i fod yn bryder
- Er gwaethaf diogelu cyllid Cefnogi Pobl yng nghyllideb 2016/2017 Llywodraeth Cymru, mae penderfyniadau ynghylch comisiynu gwasanaethau yn arwain at doriadau
- Mae gan y rhai sy'n comisiynu gwasanaethau ddiffyg dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd darpariaeth gwasanaethau arbenigol
- Mae rhai gwasanaethau yn wynebu perygl cau ac, er bod canllawiau statudol ar ddarparu gwasanaethau i fod i ddod i rym yn 2017/2018, mae'n bosibl y gallai llawer o wasanaethau arbenigol fod wedi'u colli erbyn y daw'r canllawiau i rym

**4. Cytundeb i gynhyrchu adroddiad etifeddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol**

Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol y bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn cynhyrchu adroddiad etifeddiaeth i grynhoi cyflawniadau'r Grŵp ac i amlinellu argymhellion ar gyfer y Grŵp yn y dyfodol.

Cytunwyd ar bedair prif flaenoriaeth:

1. Menywod heb gefnogaeth arian cyhoeddus
2. Comisiynu gwasanaethau cymorth
3. Atal trais a chamdriniaeth
4. Pobl ag anghenion cymhleth

Bydd drafft cyntaf yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu yng nghanol mis Chwefror.